Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

# Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Data (Defnydd a Mynediad)

Mawrth 2025

senedd.cymru

# 1. Cefndir

## Bil Data (Defnydd a Mynediad) Llywodraeth y DU

**1.** Cyflwynwyd y Bil Data (Defnydd a Mynediad)[1] (y Bil) yn Nhŷ'r Arglwyddi a chafodd ei ddarlleniad cyntaf ar 23 Hydref 2024. Noddir y Bil gan yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg.

**2.** Yn y Nodiadau Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil, nodir fel a ganlyn:

> *"This Bill is intended to harness the power of data for economic growth, support a modern digital government, and improve people's lives."*[2]

**3.** Mae enw hir y Bil yn datgan mai dyma ddiben y Bil:

> *"to make provision about access to customer data and business data; to make provision about services consisting of the use of information to ascertain and verify facts about individuals; to make provision about the recording and sharing, and keeping of registers, of information relating to apparatus in streets; to make provision about the keeping and maintenance of registers of births and deaths; to make provision for the regulation of the processing of information relating to identified or identifiable living individuals; to make provision about privacy and electronic communications; to establish the Information Commission; to make provision about information standards for health and social care; to make provision about the grant of smart meter communication licences; to make provision about the disclosure of information to improve public service delivery; to make provision about the retention of information by providers of internet services in connection with investigations into child deaths; to make provision about providing information for purposes related to the carrying out of independent research into online safety matters; to make provision about the retention of biometric data; to make provision about services for the provision of electronic*

[1] Y Bil Data (Defnydd a Mynediad), fel y'i cyflwynwyd [Saesneg yn unig]
[2] Nodiadau Esboniadol y Bil Data (Defnydd a Mynediad), fel y'u cyflwynwyd [Saesneg yn unig]

> *signatures, electronic seals and other trust services; and for connected purposes."*[3]

**4.** Cwblhaodd y Bil ei hynt drwy Dŷ'r Arglwyddi ar 5 Chwefror 2025. Cafodd ei ddarlleniad cyntaf yn Nhŷ'r Cyffredin ar 6 Chwefror 2025. Trafodwyd y Bil yn yr ail ddarlleniad ar 12 Chwefror a chafodd ei anfon i'r Pwyllgor Biliau Cyhoeddus; disgwylir iddo gwblhau ei waith erbyn 18 Mawrth 2025.

## Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol blaenorol Llywodraeth y DU

**5.** Cyflwynwyd Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol gan Lywodraeth flaenorol y DU yn Nhŷ'r Cyffredin ar 8 Mawrth 2023, ond ni chwblhaodd ei hynt drwy Senedd y DU cyn i sesiwn 2023-24 Senedd y DU gael ei diddymu cyn Etholiad Cyffredinol y DU.[4]

**6.** Adroddodd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (y Pwyllgor) ar y memoranda cydsyniad deddfwriaethol[5] yn ymwneud â'r Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol ar 24 Gorffennaf 2023[6] (yr adroddiad cyntaf ar y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol), 26 Ionawr 2024[7] (yr ail adroddiad ar y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol), a 13 Mai 2024[8] (y trydydd adroddiad ar y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol). Ymatebodd Llywodraeth Cymru i adroddiadau'r Pwyllgor ar 5 Medi 2023[9], 8 Mawrth 2024[10], a 17 Mehefin 2024[11]. At hynny, cyfnewidiodd y Pwyllgor ohebiaeth â Llywodraeth Cymru yn dilyn ei ail adroddiad ar y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol.[12]

---

[3] Y Bil Data (Defnydd a Mynediad), fel y'i cyflwynwyd, tudalen 1
[4] Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol, Dechreuodd yn Nhŷ'r Cyffredin, Sesiynau 2022-23, 2023-24
[5] Cydsyniad deddfwriaethol: Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol
[6] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol, Gorffennaf 2023
[7] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) Llywodraeth Cymru ar y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol, Ionawr 2024
[8] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 4) Llywodraeth Cymru ar y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol, Mai 2024
[9] Llythyr oddi wrth y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS, Prif Weinidog Cymru ar y pryd, 5 Medi 2023
[10] Llythyr oddi wrth y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS, Prif Weinidog Cymru ar y pryd, 8 Mawrth 2024
[11] Llythyr oddi wrth Jeremy Miles, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg ar y pryd, 17 Mehefin 2024
[12] Llythyr at Lywodraeth Cymru, 15 Mawrth 2024, a Llythyr oddi wrth Lywodraeth Cymru, 16 Ebrill 2024

**7.** Dyma rai o'r prif feysydd pryder a godwyd gan y Pwyllgor yn ei adroddiadau ar y memoranda cydsyniad deddfwriaethol sy'n ymwneud â'r Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol:

- ymgysylltu â Llywodraeth y DU a gwaith rhynglywodraethol;
- darpariaethau sy'n ymwneud â gwasanaethau dilysu digidol, gan gynnwys rhoi pwerau gwneud rheoliadau i'r Ysgrifennydd Gwladol yn unig i weithredu mewn meysydd datganoledig;
- darpariaethau sy'n ymwneud â data cwsmeriaid a data busnes, gan gynnwys rhoi pwerau dirprwyedig amrywiol i'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Trysorlys weithredu mewn meysydd datganoledig;
- darpariaethau sy'n ymwneud â Chofrestr Asedau Tanddaearol Genedlaethol, gan gynnwys trosglwyddo pwerau presennol sy'n arferadwy gan Weinidogion Cymru i'r Ysgrifennydd Gwladol a dirymu rheoliadau a gymeradwyir gan y Senedd;
- effaith bosibl ar benderfyniad presennol y DU ar ddigonolrwydd data'r UE.

**8.** Roedd y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol yn ddarostyngedig i broses cydsyniad deddfwriaethol y Senedd. Trafodwyd cynnig cydsyniad deddfwriaethol ar y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol ar 14 Mai 2024, pan gytunodd y Senedd i atal cydsyniad yn dilyn pleidlais.[13]

## Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru

**9.** Mae Rheolau Sefydlog 29.1 a 29.2 yn darparu bod rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol pan fo Bil perthnasol sydd gerbron Senedd y DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig.

**10.** Ar 30 Hydref 2024, ysgrifennodd Rebecca Evans AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio (yr Ysgrifennydd Cabinet), at y Llywydd yn ei hysbysu am oedi cyn gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod hyn oherwydd cymhlethdod a hyd y Bil, a'r angen i ystyried y materion y deuir ar eu traws ar y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol, a oedd yn cynnwys darpariaethau tebyg.[14]

[13] Senedd Cymru, Y Cyfarfod Llawn, 14 Mai 2024
[14] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, 30 Hydref 2024

**11.** Ar 2 Ionawr 2025, gosododd yr Ysgrifennydd Cabinet Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (y Memorandwm) gerbron y Senedd mewn cysylltiad â'r Bil.[15]

**12.** Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgorau a ganlyn gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm erbyn 7 Mawrth 2025[16]:

- Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol;
- Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig;
- y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith;
- y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol;
- y Pwyllgor.

**13.** Yn dilyn hynny, cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgorau gyflwyno adroddiad erbyn 28 Mawrth 2025.[17]

## Darpariaeth y mae angen cydsyniad y Senedd ar ei chyfer

**14.** Asesiad Llywodraeth Cymru yw bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer:

- Rhan 1 – Cael at Ddata am Gwsmeriaid a Data am Fusnesau, cymalau 1 i 13 ac 18 i 26;
- Rhan 2 – Gwasanaethau Dilysu Digidol, Porth Gwybodaeth, cymalau 45, 47 a 49;
- Rhan 3 – Y Gofrestr Asedau Tanddaearol Genedlaethol, cymalau 56, 57, 60(1) ac Atodlen 1;
- Rhan 7 – Gwybodaeth i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn well, cymal 121.[18]

[15] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, Y Bil Data (Defnydd a Mynediad), Ionawr 2025
[16] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Data (Defnydd a Mynediad), Ionawr 2025
[17] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ddiwygiedig ar gyfer ystyried: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Data (Defnydd a Mynediad), Ionawr 2025, a'r Pwyllgor Busnes, Amserlen ddiwygiedig ar gyfer ystyried: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Data (Defnydd a Mynediad), Chwefror 2025
[18] Y Memorandwm, paragraffau 13 i 27

**15.** O ran barn Llywodraeth y DU ynghylch yr angen am gydsyniad, dywed yr Ysgrifennydd Cabinet yn y Memorandwm fod Llywodraeth y DU o'r farn bod:

- Y darpariaethau cyffredinol o dan Ran 1, Cael at Ddata am Gwsmeriaid a Data am Fusnesau, cymalau 1-28 wedi'u cadw yn ôl o dan y cymalau diogelu defnyddwyr yn Atodlen 7A Adran C6 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* (Deddf 2006); ond eu bod mewn maes datganoledig o safbwynt cwsmeriaid busnes.

- Mae'r darpariaethau 'Data Clyfar' wedi'u cadw yn ôl lle maent yn gymwys i'r sector gwasanaethau ariannol, gan y cymalau gwasanaethau ariannol ym Mharagraff 17 o Atodlen 7A i Ddeddf 2006.

- Mae'r pŵer codi ardoll o dan gymal 12 yn fater sydd wedi'i gadw yn ôl o dan y cymalau ar bolisi economaidd ac arianyddol cyllidol ym Mharagraff 15 o Atodlen 7A i Ddeddf 2006.

- Mae'r darpariaethau gwasanaethau dilysu digidol yn Rhan 2 wedi'u cadw yn ôl o dan y gwasanaethau rhyngrwyd sydd wedi'u cadw'n ôl ym Mharagraff 84 o Atodlen 7A i Ddeddf 2006.[19]

**16.** Yn y Memorandwm, mae'r Ysgrifennydd Cabinet hefyd yn dweud bod Llywodraeth y DU o'r farn bod y broses cydsyniad deddfwriaethol yn effeithio ar y canlynol:

- cymal 45, Pŵer awdurdod cyhoeddus i ddatgelu gwybodaeth i berson cofrestredig;

- cymal 47, Gwybodaeth a ddatgelir gan Awdurdod Cyllid Cymru (dywed yr Ysgrifennydd Cabinet yn y Memorandwm fod cydsyniad y Senedd yn ofynnol yn unol â Chanllawiau Cymru ar Ddatganoli Llywodraeth y DU gan fod y cymal yn addasu swyddogaethau/rhoi swyddogaethau i awdurdodau Cymreig datganoledig[20]);

- cymal 49, Cod ymarfer ynghylch datgelu gwybodaeth (eto, mae'r Memorandwm yn dweud bod cydsyniad y Senedd yn ofynnol yn unol â Chanllawiau Cymru ar Ddatganoli Llywodraeth y DU gan fod y cymal yn

[19] Y Memorandwm, paragraffau 28 i 30
[20] Mae "awdurdod Cymreig datganoledig" yn gorff sy'n bodloni'r diffiniad a nodir yn adran 157A o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*.

addasu swyddogaethau/rhoi swyddogaethau i awdurdodau Cymreig datganoledig);

- cymalau 56, 57, 60(1) ac Atodlen 1, y Gofrestr Asedau Tanddaearol Genedlaethol (dywed yr Ysgrifennydd Cabinet yn y Memorandwm y bydd y darpariaethau hyn yn newid cymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru);
- cymal 121, Datgelu gwybodaeth i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus i ymgymeriadau yn well.[21]

## Pwerau dirprwyedig yn y Bil

**17.** Mae'r Bil yn cynnwys nifer o ddarpariaethau sy'n rhoi pwerau gwneud rheoliadau i'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Trysorlys, gan gynnwys mewn meysydd datganoledig. Mae rhai o'r pwerau hyn i'w harfer gan yr Ysgrifennydd Gwladol neu'r Trysorlys yn unig. Mae eraill yn cael eu harfer ar yr un pryd[22] gyda Gweinidogion Cymru o ran Cymru. Mae cyfiawnhad Llywodraeth y DU dros roi'r pwerau hyn, a chymryd pwerau mewn meysydd penodol, wedi'i nodi yn ei Memorandwm Pwerau Dirprwyedig.[23]

**18.** Mae Rhan 1 o'r Bil (Cael at ddata am gwsmeriaid a data am fusnesau), y mae rhai darpariaethau wedi'u cwmpasu gan y broses cydsyniad deddfwriaethol, yn rhoi nifer o bwerau gwneud rheoliadau i'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Trysorlys. Byddai y darpariaethau'n galluogi sefydlu cynlluniau Data Clyfar drwy reoliadau, gan ei gwneud yn ofynnol i gyflenwyr a phersonau perthnasol eraill rannu data yn y modd a ragnodir mewn rheoliadau. Ni ddarperir rôl, gan gynnwys rôl ymgynghorol, i Weinidogion Cymru o dan y darpariaethau hyn.

**19.** Mae cymal 49 (Cod ymarfer ynghylch datgelu gwybodaeth) yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi Cod Ymarfer ynghylch datgelu gwybodaeth o

[21] Y Memorandwm, paragraffau 30 i 32

[22] Mae pŵer cydredol yn bŵer y gellir ei arfer: (a) gan Weinidogion Cymru, o ran Cymru; neu (b) gan Weinidogion y DU o ran Cymru (er enghraifft, pan fo Gweinidogion y DU yn arfer pwerau o ran y DU gyfan; neu o ran Cymru a Lloegr). Ni ddylai Gweinidogion y DU weithredu eu pwerau o ran Cymru heb gytundeb Gweinidogion Cymru fel arfer, ond (oni bai ei fod yn bŵer cydredol plws – gweler isod) nid oes gofyniad cyfreithiol iddynt gael cydsyniad er mwyn deddfu. Mae pŵer "cydredol plws" yn fath arbennig o bŵer cydredol y gellir ei arfer: (a) gan Weinidogion Cymru, o ran Cymru; neu (b) ar yr amod bod Gweinidogion Cymru yn cydsynio, gan Weinidogion y DU o ran Cymru. Pan fo Gweinidogion Cymru yn ystyried a ddylid rhoi cydsyniad i Weinidogion y DU weithredu pŵer cydredol plws, maent yn arfer swyddogaeth statudol. Os nad ydynt yn rhoi cydsyniad, ni chaiff Gweinidogion y DU arfer y pwerau hyn o ran Cymru.

[23] Bil Data (Defnydd a Mynediad), Memorandwm o'r Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg i'r Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio, Hydref 2024 [Saesneg yn unig]

dan gymal 45, y mae rhaid i awdurdodau cyhoeddus sy'n rhannu data ar gyfer gwasanaethau dilysu digidol roi sylw iddo. Byddai'r cod hwn yn gymwys i awdurdodau Cymreig datganoledig. O dan gymal 49(5), mae'n ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru wrth lunio neu ddiwygio'r Cod. Er bod cyhoeddi'r fersiwn gyntaf o'r Cod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol, mae ailgyhoeddi'r Cod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

**20.** Mae cymal 56 (Cofrestr Asedau Tanddaearol Genedlaethol: Cymru a Lloegr) yn gosod dyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol i gadw cofrestr o wybodaeth am gyfarpar ar strydoedd yng Nghymru a Lloegr. Mae ffurf a modd y Gofrestr Asedau Tanddaearol Genedlaethol i'w rhagnodi mewn rheoliadau. Mae darpariaethau eraill yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau mewn perthynas â'r gofrestr honno, megis mewn perthynas â lanlwytho gwybodaeth yn y lle cyntaf, cael at wybodaeth, ffioedd sy'n daladwy gan ymgymerwyr, darparu gwybodaeth, cosbau ariannol, a threfniadau i drydydd partïon arfer swyddogaethau. Mae'n ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn gwneud rheoliadau o dan y pwerau hyn, ond ni ddarperir pwerau cyfatebol a/neu gydredol i Weinidogion Cymru.

**21.** Yn y Memorandwm, dywed yr Ysgrifennydd Cabinet, o dan gymal 57(2) a (3) o'r Bil (Gwybodaeth mewn perthynas â chyfarpar: Cymru a Lloegr), fod y diwygiadau sydd i'w gwneud i adran 79 o *Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991* (Deddf 1991) yn rhoi pwerau gwneud rheoliadau cydredol i'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru.[24]

**22.** Mae pwerau newydd eraill hefyd yn cael eu mewnosod yn adran 79 o Ddeddf 1991 sy'n arferadwy gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn unig. Mae cymal 57(3)(f) o'r Bil yn mewnosod is-adrannau (3B) a (3C) newydd yn adran 79 o Ddeddf 1991, gan osod dyletswydd barhaus ar ymgymerwyr i gofnodi gwybodaeth yn y Gofrestr Asedau Tanddaearol Genedlaethol. Rhoddir tri phŵer newydd i'r Ysgrifennydd Gwladol yn yr is-adrannau (3B) a (3C) newydd, sef pŵer i ragnodi'r cyfnod ar gyfer cydymffurfio â'r ddyletswydd hon; pŵer i ragnodi achosion lle nad yw'r ddyletswydd hon yn gymwys; a phŵer i ragnodi'r ffurf a'r modd y mae rhaid cofnodi gwybodaeth yn y Gofrestr Asedau Tanddaearol Genedlaethol.

**23.** Mae'n ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn gwneud rheoliadau o dan adran 79 o Ddeddf 1991. Mae rheoliadau a wneir

[24] Y Memorandwm, paragraff 24

gan Weinidogionn Cymru o dan adran 79 yn ddarostyngedig i’r weithdrefn negyddol.

**24.** Mae cymal 57(4) o’r Bil yn amnewid adran 80 newydd o Ddeddf 1991 ac yn gosod dyletswydd ar bersonau sy’n ymgymryd â gwaith ar y stryd pan fo rhaid cymryd camau, ar ôl dod o hyd i eitem o gyfarpar wrth wneud gwaith stryd y mae gwybodaeth ragnodedig ar goll o’r Gofrestr Asedau Tanddaearol Genedlaethol mewn perthynas ag ef, i hysbysu'r ymgymerwr y mae'r eitem yn perthyn iddo o'r wybodaeth sydd ar goll neu'n anghywir, neu gofnodi gwybodaeth ar y Gofrestr Asedau Tanddaearol Genedlaethol. Rhoddir pedwar pŵer i’r Ysgrifennydd Gwladol yn unig mewn cysylltiad â’r ddyletswydd hon, sef:

- pŵer i ragnodi, drwy reoliadau, wybodaeth sydd, os yw ar goll o’r Gofrestr Asedau Tanddaearol Genedlaethol neu’n anghywir, yn sbarduno’r ddyletswydd i hysbysu’r ymgymerwr o hyn;
- pŵer i ragnodi’r wybodaeth y mae rhaid ei darparu i’r ymgymerwr y mae’r eitem yn perthyn iddo, neu y mae rhaid ei chofnodi ar y Gofrestr Asedau Tanddaearol Genedlaethol;
- pŵer i ragnodi’r ffurf a’r modd y mae rhaid cofnodi gwybodaeth o’r fath ar y Gofrestr Asedau Tanddaearol Genedlaethol;
- pŵer i ragnodi eithriadau i’r ddyletswydd.

**25.** Mae rhaid i’r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn gwneud rheoliadau o dan adran 80 newydd o Ddeddf 1991.

**26.** Mae cymal 121 (Datgelu gwybodaeth i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus i ymgymeriadau yn well) o’r Bil yn estyn pŵer Harri'r Wythfed, sy'n bodoli eisoes ac sy’n arferadwy gan Weinidogion Cymru, drwy ddiwygio adran 35 o *Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017* (Deddf 2017).

**27.** Mae adran 35 o Ddeddf 2017 yn caniatáu i awdurdodau cyhoeddus penodedig (“personau penodedig” fel y’u gelwir yn Neddf 2017) rannu data i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus i unigolion ac aelwydydd yn well ar gyfer “amcan penodedig”, fel y’i rhagnodir mewn rheoliadau. Mae cymal 121 yn estyn y pwerau hyn i gynnwys darparu gwasanaethau'n well i “ymgymeriadau”, sy'n golygu busnesau neu gyrff a sefydlwyd at ddibenion elusennol. Mae’r rheoliadau a wneir o dan y pŵer hwn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

## Safbwynt Llywodraeth Cymru fel y nodir yn y Memorandwm

**28.** Yn y Memorandwm, mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn cadarnhau bod Llywodraeth Cymru yn cefnogi bwriad polisi Llywodraeth y DU y tu ôl i'r Bil.[25] Mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn datgan y canlynol:

> *"Mae mwyafrif llethol darpariaethau'r Bil yn ymwneud â'r materion a gadwyd yn ôl o dan y cymalau ar ddiogelu data, y cymalau ar werthu a chyflenwi nwyddau a gwasanaethau i ddefnyddwyr, y cymalau ar delegyfathrebu a'r cymalau ar gofrestru genedigaethau, marwolaethau ac addoldai, fel y'u nodwyd yn Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Felly, credaf y gallai fod yn briodol i'r darpariaethau hyn gael eu gwneud drwy Fil y DU."*[26]

**29.** Mae'r Ysgrifennydd Cabinet hefyd yn cadarnhau bod Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r bwriad polisi y tu ôl i'r canlynol:

- Rhan 1, Cael at Ddata am Gwsmeriaid a Data am Fusnesau, cymalau 1 i 13 ac 18 i 26;
- Rhan 2, Gwasanaethau Dilysu Digidol, cymalau 45, 47 a 49;
- Rhan 3, Y Gofrestr Asedau Tanddaearol Genedlaethol, cymalau 56, 57 a 60(1) ac Atodlen 1;
- Rhan 7, Gwybodaeth i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn well, cymal 121.

**30.** Dywed yr Ysgrifennydd Cabinet yn y Memorandwm fod rhai pryderon gyda Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol blaenorol Llywodraeth y DU wedi'u datrys, sef dileu darpariaethau sy'n ymwneud â'r Gofrestr Asedau Tanddaearol Genedlaethol wrth drosglwyddo pwerau gwneud rheoliadau o dan adran 79 o Ddeddf 1991 oddi wrth Weinidogion Cymru i'r Ysgrifennydd Gwladol.[27]

**31.** Fodd bynnag, yn y Memorandwm mae'r Ysgrifennydd Cabinet hefyd yn datgan bod nifer o faterion allweddol sy'n peri pryder eto i'w datrys a bod darpariaethau, fel y maent wedi'u drafftio ar hyn o bryd, nad ydynt yn gyson ag egwyddorion Llywodraeth Cymru ar ddeddfwriaeth y DU. Mae'r rhain yn cynnwys:

[25] Y Memorandwm, paragraff 33
[26] Y Memorandwm, paragraff 34
[27] Y Memorandwm, paragraff 36

- Yn Rhan 1, darpariaeth sy'n rhoi pwerau gwneud rheoliadau i'r Ysgrifennydd Gwladol a Thrysorlys EF mewn maes sydd wedi'i ddatganoli.
- Yn Rhan 2, mae cymal 49 yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol lunio a chyhoeddi Cod Ymarfer, a fyddai'n gymwys i awdurdodau cyhoeddus Cymru, mewn maes sydd wedi'i ddatganoli.
- Yn Rhan 3:
    - mae cymal 56 yn gosod gofyniad ar yr Ysgrifennydd Gwladol i ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn gwneud rheoliadau (o dan Ran 3A newydd i'w mewnosod yn Neddf 1991);
    - mae cymal 57(3) yn darparu pwerau gwneud rheoliadau cydredol i'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru, gyda gofyniad yn cael ei osod ar yr Ysgrifennydd Gwladol i ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn gwneud rheoliadau o dan yr adran hon (o dan y diwygiadau sydd i'w gwneud i adran 79 o Ddeddf 1991);
    - mae cymal 57(4) yn darparu pwerau gwneud rheoliadau i'r Ysgrifennydd Gwladol, gyda gofyniad yn cael ei osod ar yr Ysgrifennydd Gwladol i ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn gwneud rheoliadau o dan yr adran hon (o dan y diwygiadau i adran 80 o Ddeddf 1991);
    - mae cymal 57(9) yn dirymu Rheoliadau Gwaith Stryd (Cofnodion) (Cymru) 2005 (O.S. 2005/1812), gyda chymal 57(8) yn diwygio Rheoliadau Gwaith Stryd (Cofnodion) (Lloegr) 2002 fel eu bod yn gymwys i Gymru a Lloegr, yn hytrach na Lloegr yn unig.[28]

**32.** Ym mis Hydref 2021, rhoddodd Llywodraeth Cymru ei hegwyddorion i'r Pwyllgor ar gyfer defnyddio Biliau'r DU i ddeddfu mewn meysydd datganoledig.[29] Ar 4 Rhagfyr 2024, ysgrifennodd Julie James AS, y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni (y Cwnsler Cyffredinol), at y Pwyllgor yn darparu fersiwn ddiwygiedig o egwyddorion Llywodraeth Cymru ar ddeddfu mewn meysydd

[28] Y Memorandwm, paragraffau 37 i 40
[29] Llythyr oddi wrth Mick Antoniw AS, y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 22 Hydref 2021, ymateb i gwestiwn 1 ac Atodiad B: Egwyddorion Llywodraeth Cymru ar gyfer Biliau'r DU

datganoledig.[30] Gwnaethom gyfnewid gohebiaeth â'r Cwnsler Cyffredinol ar yr egwyddorion diwygiedig.[31]

## Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru

**33.** Trafodwyd y Memorandwm yn ein cyfarfod ar 13 Ionawr 2025.[32] Yn y cyfarfod hwnnw, nodwyd llythyr 30 Hydref 2024 oddi wrth yr Ysgrifennydd Cabinet at y Llywydd yn rhybuddio am oedi cyn gosod y Memorandwm. Gwnaethom ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Cabinet yn ei wahodd i sesiwn dystiolaeth lafar.[33] Cynhaliwyd y sesiwn dystiolaeth ar 3 Chwefror 2025.[34]

### Gwaith rhynglywodraethol a datrys materion cyfansoddiadol

**34.** I ddechrau casglu tystiolaeth ar 3 Chwefror, gwnaethom dynnu sylw at ddatganiad yr Ysgrifennydd Cabinet yn y Memorandwm bod swyddogion Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru wedi bod mewn cysylltiad cyson ers cyhoeddi'r Bil yn Araith y Brenin ym mis Gorffennaf 2024.[35] Gwnaethom nodi hefyd, yn ei llythyr at y Llywydd yn rhybuddio y byddai oedi cyn gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer y Bil, y dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet ei bod wedi cael fersiwn lawn o'r Bil dair wythnos cyn iddo gael ei gyflwyno i Dŷ'r Arglwyddi.[36] Fel y cyfryw, gwnaethom ofyn pam y cymerodd ddeg wythnos wedyn i'r Memorandwm gael ei osod gerbron y Senedd. Wrth ymateb, cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod swyddogion Llywodraeth Cymru wedi gweld y Bil drafft am y tro cyntaf ar 3 Hydref. Aeth yr Ysgrifennydd Cabinet ymlaen i ddweud y canlynol:

> *"… this is a complex piece of legislation, and, as you'll appreciate, it does cut across quite a number of Welsh Government ministerial portfolios. Just an analysis of a Bill of this magnitude does take some time, so I think that that really describes part of the challenge, and also, of course, we had the previous Bill, which was introduced by the previous UK Government, the Data Protection and Digital Information Bill. There were some similarities between the two, so there was*

[30] Llythyr oddi wrth Julie James AS, y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni, 4 Rhagfyr 2024
[31] Llythyr at y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni, 17 Rhagfyr 2024 a Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni, 9 Ionawr 2025
[32] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 13 Ionawr 2025
[33] Llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, 14 Ionawr 2025
[34] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Chwefror 2025
[35] Y Memorandwm, paragraff 7
[36] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio at y Llywydd, 30 Hydref 2024

*some extra work for us to do in terms of considering the approaches that we took to the previous Bill, and then reading them across and looking for the differences in the new Bill.”*[37]

**35.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym hefyd ei bod yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod pwyllgorau’r Senedd yn cael yr amser sydd ei angen i graffu ar y Biliau’n briodol hefyd.[38]

**36.** O ystyried materion cyfansoddiadol Llywodraeth Cymru gyda’r ddeddfwriaeth arfaethedig fel yr amlinellwyd yn y Memorandwm – y mae llawer ohonynt yn adlewyrchu pryderon a nodwyd yn flaenorol gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol – gwnaethom ofyn pam nad yw’r pryderon hynny wedi cael sylw eisoes. Ymatebodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

> *“Some of those issues that we experienced with the previous Bill have been addressed, for example, some of the issues surrounding the national underground asset register, particularly the previous UK Government's approach in terms of a removal of a devolved executive function from Welsh Ministers relating to the newer provisions, which was included in the previous UK Government's Bill. So, some of those challenges and concerns that we have have been addressed, but it does remain the case that there are still some ongoing issues that we are in discussion with the UK Government on, and that's why, at this point, we haven't taken a view in terms of whether or not we're able to recommend consent.”*[39]

**37.** Aeth yr Ysgrifennydd Cabinet ymlaen i gadarnhau safbwynt Llywodraeth Cymru o ran y Bil. Dywedodd y canlynol wrthym:

> *“Our view is that it is absolutely appropriate for this subject matter to be dealt with by the UK Government through a Bill in Parliament, but our concerns and our challenges, really, are around those more subtle issues in respect of the constitution—ones which the committee will be very familiar with. So, it's not the subject matter that we have concerns*

[37] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, 3 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion [10]
[38] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, 3 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion [10]
[39] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, 3 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion [12]

> *about, it's more about those ongoing discussions around the constitutional points."*[40]

**38.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym hefyd nad oedd yn ddelfrydol iddi hi na'r Pwyllgor nad oedd Llywodraeth Cymru, hyd yn hyn, yn gallu ffurfio barn am gydsyniad deddfwriaethol ond mai'r bwriad yw rhoi argymhelliad ar gydsyniad cyn i'r cynnig gael ei drafod yn y Senedd.[41]

**39.** Gwnaethom ofyn a oes llinellau coch i'r Ysgrifennydd Cabinet, lle na fyddai'n argymell bod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad. Ymatebodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

> *"I hope that we can make progress on all of the areas that we're currently in discussion with the UK Government on. (…) some of these points are quite nuanced, so the UK Government does have some credible things to say where we do have those areas of disagreement. The Welsh Government takes a particular view, and we hold it strongly based on the evidence and our understanding, but, equally, the UK Government believes that it has a credible case as well, so we just need to try and have those discussions, see if we can move towards each other and find areas of compromise."*[42]

## Rhan 1 – Cael at Ddata am Gwsmeriaid a Data am Fusnesau

**40.** Mae cymalau 1 i 13 a 18 i 26 yn Rhan 1 o'r Bil yn gwneud darpariaeth ynghylch rhannu gwybodaeth am gwsmeriaid a busnesau i wneud data yn fwy cludadwy ac yn sefydlu fframwaith rheoleiddio ar gyfer sefydlu cynlluniau Data Clyfar.

**41.** Yn y Memorandwm, mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn datgan nad yw dirprwyo pwerau gwneud rheoliadau yn Rhan 1 o'r Bil i'r Ysgrifennydd Gwladol ac i'r Trysorlys i weithredu mewn meysydd datganoledig yn gyson ag egwyddorion Llywodraeth Cymru ar ddeddfwriaeth y DU. Gwnaethom dynnu sylw bod hwn yn bryder a drosglwyddwyd o ddadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol. Gwnaethom ofyn i'r Ysgrifennydd Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am statws y trafodaethau diweddaraf ar Ran 1 o'r Bil. Wrth gadarnhau bod Llywodraeth Cymru yn cefnogi bwriad polisi'r darpariaethau yn Rhan 1 o'r Bil, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet y canlynol wrthym:

[40] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion [18]
[41] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion [80]
[42] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion [82]

> *"We do understand that the UK Government's initial focus on the potential smart data schemes will be within the banking, finance, energy, transport, retail and home-buying sectors, and so clearly there are some areas there that are within our devolved competence. Under Part 1 of the Bill, the Secretary of State and the Treasury are provided with regulation-making powers in those areas that we believe to be devolved, so that clearly then is in contrast to our Welsh Government principles on UK Government legislation in terms of needing the decisions to be taken by Welsh Ministers in those areas. So, this is an area where there's ongoing discussion with the UK Government at the moment."*[43]

**42.** Gwnaethom ofyn i'r Ysgrifennydd Cabinet ymhelaethu ar y rheswm y mae'n credu nad yw'r darpariaethau'n gyson ag egwyddorion Llywodraeth Cymru, ac ymatebodd:

> *"Welsh Government considers the provisions that I described, particularly in relation to transport, energy, retail, home buying and so on, to be devolved. It's our view that none of the reservations set out in Schedule 7A to the Government of Wales Act 2006 are engaged, and that would include the reservations on protection of personal data and the regulation of the sale and supply of goods and services to customers."*[44]

**43.** Dywedodd swyddog a oedd gyda'r Ysgrifennydd Cabinet y canlynol:

> *"Yes, fundamentally, as the Cabinet Secretary has set out, our position is that delegated powers in devolved areas should be conferred on Welsh Ministers, and the powers that we're talking about in Part 1 are in a devolved area."*[45]

**44.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym hefyd ei bod wedi cyfarfod â'r Farwnes Jones o'r Eglwys Newydd i drafod y materion hyn a'i bod yn gobeithio bod mewn sefyllfa i wneud cynnydd cyn gynted â phosibl i roi eglurder i'r Senedd ar eu barn mewn cysylltiad â rhoi cydsyniad.[46]

---

[43] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion [23]
[44] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion [25]
[45] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion [26]
[46] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion [28]

**45.** Wrth geisio eglurder, gwnaethom ofyn i'r Ysgrifennydd Cabinet gadarnhau ein dealltwriaeth, yn ei barn hi, y dylid dirprwyo'r pwerau hyn i Weinidogion Cymru oherwydd eu bod o fewn meysydd datganoledig ac y byddai Gweinidogion Cymru yn gallu "gwneud yr un peth yr un mor effeithiol".[47] Ymatebodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

> *"I'll give an example with regard to clause 12 specifically. Welsh Government is of the view that a power to levy a charge doesn't amount to a tax falling within the scope of the reservation in respect of fiscal, economic and monetary policy, including the issue and circulation of taxes. As I've set out in the legislative consent memorandum, the UK Government's assessment of the need for legislative consent is different to ours. They're of the view that the provisions under Part 1 are reserved where they apply to the financial services sector, under the financial services reservations, and also under the consumer protection reservation where the consumer is an individual. But they do, however, agree that provisions in relation to business customers are devolved.*
>
> *So, I think that shows the kind of difference in view that we have at the moment and the things that we're trying to resolve with the UK Government. You can see that there's a case to be argued on both sides, and we're having those discussions at the moment."*[48]

## Rhan 2 – Gwasanaethau Dilysu Digidol

**46.** Mae llawer o Ran 2 o'r Bil yn ymwneud â materion a gedwir yn ôl ond mae'n ceisio sefydlu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer darparu gwasanaethau dilysu digidol yn y DU, lle y mae darparwyr y gwasanaethau hynny am gael eu cofrestru ar gofrestr llywodraeth.

**47.** Mae'r darpariaethau'n galluogi awdurdodau cyhoeddus i ddatgelu gwybodaeth bersonol i ddarparwyr gwasanaethau dilysu digidol cofrestredig at ddiben dilysu hunaniaeth a chymhwysedd. Bydd angen i ddarparwyr gwasanaethau dilysu digidol gydymffurfio â rheolau'r strwythur deddfwriaethol os ydynt am gael eu cofrestru ar gofrestr llywodraeth, defnyddio marc ymddiriedaeth a chael mynediad at borth gwybodaeth lle y caniateir i awdurdodau cyhoeddus

[47] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion [29]
[48] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion [31]

rannu gwybodaeth. Ceisir cydsyniad y Senedd mewn perthynas â'r darpariaethau 'porth gwybodaeth'.

**48.** Mewn perthynas â chymalau 45, 47 a 49 o'r Bil, cynhwyswyd cymalau tebyg yn y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol, ac roedd Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer.

**49.** Yn y Memorandwm, mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn datgan bod dirprwyo pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol lunio a chyhoeddi cod ymarfer ynghylch gwasanaethau dilysu digidol yn fater allweddol y mae angen ei ddatrys. Fel y cyfryw, gwnaethom ofyn am ddiweddariad ar statws y trafodaethau â Llywodraeth y DU. Ymatebodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

> *"Again, you've touched on one of the areas that is yet to be resolved. It's our view that the purpose of the provisions under Part 2 of the Bill are to enable the provision of digital verification services, rather than being about the regulation of that service. As we set out in the LCM, we consider three clauses within Part 2 to be devolved—clauses 45, 47 and 49—and we would then say that those would require, of course, the consent of the Senedd.*
>
> *Clause 49 in Part 2 of the Bill is the one that provides the Secretary of State with powers to prepare and publish that code. That code would, of course, be applicable to Welsh public authorities in an area that we consider to be devolved. So, that is the discussion that we're having with the UK Government at the moment. I hope, really, to have the opportunity to resolve those conversations and discussions before I'm able to provide that fuller view to the Senedd. I wish, Chair, that I was in a position today to give more clarity on that but, I'm sorry, I'm not."*[49]

**50.** Gwnaethom ofyn i'r Ysgrifennydd Cabinet gadarnhau pam nad oedd Llywodraeth Cymru yn ceisio cydsyniad y Senedd ar gyfer y darpariaethau eraill yn Rhan 2 o'r Bil, ac nid cymalau 45, 47 a 49 yn unig. Ysgrifennodd yr Ysgrifennydd Cabinet at y Pwyllgor ar y pwynt hwn ar 14 Chwefror 2025 yn datgan y canlynol:

[49] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion [33] a [34]

> *"Nid yw Llywodraeth Cymru wedi gofyn am gydsyniad mewn perthynas â'r darpariaethau yn Rhan 2 o'r Bil, ac eithrio cymalau 45, 47 a 49, gan ein bod yn ystyried mai pwrpas y darpariaethau hyn yw rheoleiddio gwasanaethau gwirio digidol. O'r herwydd, cedwir y rhain o dan "reoleiddio gwerthu a chyflenwi … gwasanaethau i ddefnyddwyr" (paragraff 72 o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006)."*[50]

## Rhan 3 – Cofrestr Asedau Tanddaearol Genedlaethol

**51.** Mae'r Gofrestr Asedau Tanddaearol Genedlaethol yn fap digidol o bibellau a cheblau tanddaearol. Fel rydym yn pwysleisio'n gynharach yn ein hadroddiad, mae Rhan 3 o'r Bil yn diwygio Deddf 1991 drwy fewnosod Rhan 3A newydd yn y Ddeddf honno i roi'r Gofrestr Asedau Tanddaearol Genedlaethol ar sail statudol drwy osod dyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol i gadw cofrestr (h.y. Cofrestr Asedau Tanddaearol Genedlaethol) a gwneud yr wybodaeth sydd ar y gofrestr honno ar gael i bersonau eraill.

**52.** Mae rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn gwneud rheoliadau o dan y Rhan hon.

**53.** Ym mharagraffau 21 i 26 uchod, rydym yn crynhoi'r pwerau dirprwyedig yn Rhan 3 o'r Bil.

**54.** Fel rydym yn pwysleisio'n gynharach yn ein hadroddiad, roedd gan y Pwyllgor bryderon gyda'r darpariaethau Cofrestr Asedau Tanddaearol Genedlaethol yn y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol, gan gynnwys trosglwyddo pwerau presennol arferadwy gan Weinidogion Cymru i'r Ysgrifennydd Gwladol a dirymu rheoliadau a gymeradwywyd gan y Senedd.

**55.** Yn y Memorandwm, mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn datgan bod nifer o faterion gyda'r darpariaethau Cofrestr Asedau Tanddaearol Genedlaethol yn Rhan 3 o'r Bil sydd eto i'w datrys gyda Llywodraeth y DU.

**56.** Yn ystod ein sesiwn dystiolaeth gyda'r Ysgrifennydd Cabinet, dywedodd wrthym nad oes gan Lywodraeth Cymru ddim gwrthwynebiad i'r cyfeiriad polisi sy'n cael ei nodi gan Lywodraeth y DU, a bod Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda'r Comisiwn Geo-ofodol ers nifer o flynyddoedd ar y materion hyn.[51]

---

[50] Llythyr oddi wrth yr Ysgrifennydd Cabinet, 14 Chwefror 2025
[51] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion [44]

**57.** Datganodd swyddog a oedd gyda'r Ysgrifennydd Cabinet y canlynol:

> *"So, the national underground asset register is going to provide a statutory framework for data sharing around pipes and cables underground; it will help save money, save lives—and I'm sure committee will be aware of that. We've been working with the Geospatial Commission since 2021, when they first talked about piloting this on a non-statutory basis, because we could see the benefits there for us in working with them, because the negotiations with some of the undertakings, such as telecoms and so on, would be best done if we can work together and get a consistent flow of data from those providers, which will support both the national underground asset register and our own policy objectives, such as work we are doing around the strategic infrastructure steering group, where we're looking at future planned works, so we can understand what digging undertakings are planning to do. We can bring that back, then, into our own data flows for future infrastructure works. We've already seen examples where that has saved money. So, the policy objectives are aligned. We're quite content for the Geospatial Commission to lead on a national underground asset register that brings together data from organisations and undertakings that may cross boundaries. But, at the same time, we can see the benefit in having shared data standards, interoperability, which work across both private sector and public sector organisations to provide that information in a single, standard way."*[52]

**58.** Mynegwyd pryder i'r Ysgrifennydd Cabinet mai canlyniad ymddangosiadol i Lywodraeth Cymru yn 'neidio ar gwt' Llywodraeth y DU[53] oedd bod Gweinidogion Cymru yn colli pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym y byddai Gweinidogion Cymru yn gallu gosod eu rheoliadau eu hunain, ond ychwanegodd y canlynol:

> *"So, these are the key areas that we're in discussions with the UK Government on now. So, one of our principles that you'll be very familiar with is around consenting rather than consulting,*

[52] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion [45]
[53] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion [46]

*so it's those particular areas that we're in discussion on at the moment."*[54]

**59.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet y canlynol hefyd:

> *"We think that we would have the competence to deliver the provisions in Wales, which are similar in effect, but we don't have plans to do that at this point, and we're taking advantage of an opportunity that there is for us, and I do think that, in this case, that kind of consistency across borders is useful, certainly for business and others, and we do have that good relationship with the Geospatial Commission. We've been very involved in the piloting of the work and so on. So, I don't sense that this is an area where something is being done to us. It's something that we're collaborating on."*[55]

**60.** Os yw Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa lle nad yw'n gallu dod i gytundeb â Llywodraeth y DU ar y materion sy'n weddill gyda'r darpariaethau Cofrestr Asedau Tanddaearol Genedlaethol, gwnaethom ofyn i'r Ysgrifennydd Cabinet beth fyddai'r goblygiadau i'w hargymhelliad i'r Senedd ynghylch a ddylid rhoi cydsyniad deddfwriaethol. Ymatebodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

> *"Well, we would not want to be in a position where we would be withdrawing from the shared asset register, because of the value that it provides to us and all of the work that we have done in developing it so far. So, I really want to have that ongoing space to have those discussions with the UK Government, with a view to resolving it to our satisfaction. (…)*
>
> *I think the point is that, as of now, we haven't made a recommendation to the Senedd, and we're not going to do that until we have clarity and have those opportunities to continue what have been useful discussions. And, as I say, the UK Government already saw some of our arguments in respect of the first Bill and amended their approach to this one."*[56]

**61.** Pan ofynnwyd iddi "yn symbolaidd, yn weledol ac yn gysyniadol, ydyn ni ar ryw lithren *slippery slope* lle mae *'England and Wales'* yn dod nawr eto yn

[54] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion [49]
[55] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion [51]
[56] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion [57] a [61]

ymdreiddio fel cysyniad cyfansoddiadol nôl i mewn i feysydd yr oeddem ni wedi meddwl oedd wedi hen ddatganoli" ac a oedd yn cytuno y byddai angen gwneud rhywbeth ynghylch Llywodraeth y DU yn torri egwyddorion Llywodraeth Cymru, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet y canlynol:

> *"It goes back to that point about the principles being the right ones and ones that we should be looking to adhere to with all UK legislation, because they're set out for any UK Government. Just because we share the party of the UK Government, actually—well, we might not, for the next time this legislation is looked at in Westminster. So, I think that we need to be looking to protect ourselves, regardless."*[57]

**62.** O ystyried yr ymateb hwn gan yr Ysgrifennydd Cabinet, gwnaethom ofyn iddi gadarnhau a fyddai'n argymell gwrthod cydsyniad os bydd egwyddorion Llywodraeth Cymru yn cael eu torri. Ymatebodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

> *"Well, yes, I would hope that we would be in that position. You do have to weigh up a range of things, then, don't you, in terms of whether there's a policy risk in not agreeing. But then these are difficult things to balance, then, aren't they? We would always, always want to be in the position where we can negotiate a positive outcome."*[58]

**63.** Gwnaethom hefyd dynnu sylw'r Ysgrifennydd Cabinet bod yr Alban yn gweithredu model gwahanol, ac mae ganddi Fowt Data Cyfarpar Cymunedol yr Alban sy'n gwneud gwybodaeth pibellau a cheblau tanddaearol yn hygyrch drwy Gofrestr Gwaith Ffordd yr Alban. Ymatebodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

> *"You're absolutely right that Scotland was ahead of the game on this. There will be, I'm sure, discussions in future as to how things operate most smoothly across borders."*[59]

**64.** Ychwanegodd swyddog a oedd gyda'r Ysgrifennydd Cabinet y canlynol:

> *"Dwi'n gweld y manteision o weithio gyda'r Llywodraeth yn Llundain ar hyn, fel ro'n i'n ei ddweud gynnau, ynglŷn ag effeithiolrwydd, gwerth am arian a'r ffaith ein bod ni'n gallu*

---

[57] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion [98]
[58] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion [100]
[59] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion [84]

*cael cytundebau gyda chwmnïau weddol fawr gyda'n gilydd yn hytrach na'n bod ni i gyd yn trafod. Bydd yr Alban, cyn i Lywodraeth y Deyrnas Unedig ddod â hwn i mewn, wedi cael y trafodaethau yna gyda rhai o'r cwmnïau mawr, dwi'n siŵr, a gydag awdurdodau lleol eu hunain. Ond os ydyn ni'n edrych ar hwn yn gyson, does dim rhaid inni wedyn fynd eto a gofyn eto i'r un bobl am y data,  a bydd y data, os ydyn ni'n edrych o ochr awdurdodau lleol, yn gallu llifo unwaith. Byddwn ni'n gallu cael y data, byddan nhw'n cael y data gyda'r un safonau a gyda safonau agored sy'n ein helpu ni i gyd gael y gallu i wneud beth rydyn ni angen efo'r data. Dwi ddim wedi cael y sgwrs gyda'r Alban am y manteision ohonyn nhw'n ei wneud o eu hunain, ac mae hynna'n rhywbeth mi fuaswn i'n gallu ei wneud i ddeall hynna. Ond dyna lle dwi'n dŵad o ochr polisi."*[60]

**65.** Cadarnhaodd y swyddog hefyd y byddai'r Pwyllgor yn clywed canlyniad trafodaethau â swyddogion Llywodraeth yr Alban.[61]

## Rhwymedigaethau'r DU a'r UE

**66.** Mae gan y Comisiwn Ewropeaidd y pŵer i benderfynu a yw gwlad y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd yn cynnig lefelau digonol o ddiogelu data. Caiff gyhoeddi penderfyniad digonolrwydd sy'n golygu nad oes angen rhagor o fesurau diogelu ar gyfer llif data personol o'r UE, Norwy, Liechtenstein a Gwlad yr Iâ i drydydd gwledydd, megis y DU.

**67.** Cafodd y DU benderfyniad digonolrwydd yn llwyddiannus ar 28 Mehefin 2021 yn dilyn ymadael â'r UE. Penderfyniad digonolrwydd y DU oedd y cyntaf i gynnwys darpariaeth fachlud, sy'n golygu ei fod yn gyfyngedig i bedair blynedd, hyd at fis Mehefin 2025. Mynegwyd pryderon bod y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol, fel y'i cyflwynwyd gan Lywodraeth flaenorol y DU, yn peri risg i statws digonolrwydd y DU oherwydd y byddai ei ddarpariaethau wedi dileu neu leihau mesurau diogelu a ddarperir gan gyfundrefn diogelu data y DU.

**68.** Yn ei Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol, cododd Llywodraeth Cymru bryderon bod colli penderfyniad digonolrwydd presennol y DU yn "bryder arbennig o safbwynt

[60] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion [85]
[61] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion [87]

masnach”.[62] Cytunodd Llywodraeth Cymru yn ddiweddarach â phwyllgorau’r Senedd, y byddai colli’r penderfyniad digonolrwydd yn debygol o effeithio ar feysydd eraill o rannu data, gan gynnwys gorfodi’r gyfraith.[63]

**69.** Roedd yn ymddangos bod pryderon Llywodraeth Cymru yn cynyddu ac, yn ei Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 4) ar y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol, mynegodd y Llywodraeth bryderon bod “nifer o ddarpariaethau yn cael eu hystyried yn heriol ac â photensial adolygiad gan y Comisiwn [Ewropeaidd] a her gyfreithiol yn Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd”.[64]

**70.** Yn ogystal â thelerau penderfyniad digonolrwydd y DU gan yr UE, roedd y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol hefyd yn croestorri â rhwymedigaethau’r DU a’r UE yn y Cytundeb Masnach a Chydweithredu, yn benodol ar ddiogelu data personol, trosglwyddo data trawsffiniol, a chydweithrediad gorfodi’r gyfraith. Nid yw'r Memorandwm yn cynnwys asesiad o ryngweithiad y Bil â'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu.

**71.** Yn ein sesiwn dystiolaeth gyda’r Ysgrifennydd Cabinet, gwnaethom godi’r pryderon blaenorol am benderfyniad digonolrwydd y DU gan yr UE, a gofyn iddi roi trosolwg o sut y mae’r Bil yn ymwneud â'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu, a sut y mae’n wahanol i'r Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym fod Llywodraeth Cymru wedi cael rhai trafodaethau da â Llywodraeth y DU, ac mae Llywodraeth y DU yn parhau i fod yn gadarnhaol bositif na fydd goblygiadau i benderfyniad digonolrwydd data’r UE gan y Bil. Ychwanegodd yr Ysgrifennydd Cabinet y canlynol:

> *“And, actually, our own officials and the advice that I've received are very much of the view that the Bill won't have an immediate or direct impact on the UK's compliance with the TCA.*
>
> *The data protection provisions within the TCA are quite broad and high level and, as such, the changes to the UK data*

---

[62] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2), Mawrth 2023, paragraff 34
[63] Llythyr oddi wrth Brif Weinidog Cymru ar y pryd at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad a Phwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, 5 Medi 2023
[64] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Memorandwm Rhif 4), Ebrill 2024, paragraff 28

> *protection framework proposed by the Bill are unlikely to impact on the UK's compliance with the TCA. I suppose our concerns, really, are around that futureproofing, in the sense of not wanting to be in a difficult position, where you see the UK's divergence from the data protection regime currently in place across the EU and the UK, and what that might mean then. So, our concerns are really precautionary, rather than based on detail. We would like to see further information forthcoming from the UK Government in this space, particularly around the risk assessments that they've undertaken. So, I would say that."*[65]

**72.** Gwnaethom nodi, yn y Memorandwm, fod yr Ysgrifennydd Cabinet yn datgan y gallai colli'r penderfyniad digonolrwydd data effeithio ar ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus gyda risgiau arwyddocaol i'r sector iechyd. O ystyried y pryderon difrifol hyn, gwnaethom ofyn i'r Ysgrifennydd Cabinet am asesiad Llywodraeth Cymru ei hun o'r Bil. Ymatebodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

> *"If the UK were to lose our data adequacy status, implementation of the safeguards required by the EU would mean quite considerable additional administrative work and reporting requirements for business, for example. But then also in respect of public service delivery, it would have an impact where service delivery relies on that flow of personal data from the EU. It could impact on education or local government services, for example. And those risks are even more significant from a health perspective, potentially impacting the delivery of NHS services and co-operation with the EU on health matters.*
>
> *Again, our concerns, really, are precautionary—what might happen in the event of the loss of data adequacy. We've given this a lot of thought over the years, because when we were heading to a potential no-deal Brexit, we worked very hard to ensure that our public bodies were ready for such a scenario. I'm not suggesting by any stretch of the imagination that's where we are at the moment, because the UK Government is*

---

[65] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion [67] a [68]

> *very confident that this isn't an issue. But as I say, we like to consider all options."*[66]

**73.** Cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Cabinet hefyd nad yw wedi gweld asesiad risg Llywodraeth y DU.[67]

**74.** Nodwyd bod penderfyniad digonolrwydd y DU gan yr UE yn dod i ben ym mis Mehefin, a gofynnodd i'r Ysgrifennydd Cabinet a yw'n ymwybodol o drafodaethau'r DU a'r UE ar ei adnewyddu, yn enwedig yn sgil ailosod cysylltiadau. Gwnaethom hefyd ofyn a drafodwyd adnewyddu'r penderfyniad yn y grŵp rhyngweinidogol ar gysylltiadau rhwng y DU a'r UE. Ymatebodd yr Ysgrifennydd Cabinet gyda gwybodaeth yn ymwneud â thrafodaethau rhwng y DU a'r UE, yn hytrach na rhwng pedair llywodraeth y DU yn y grŵp rhyngweinidogol:

> *"I know that there have been significant discussions between the UK Government and the EU. So, I know that Peter Kyle, the Secretary of State for Science, Innovation and Technology, has met the previous European commissioner for justice twice, and I know that he has written to the new commissioner as well to have a conversation, and has requested a meeting to explore issues around data adequacy. I'm also aware that officials in the Department for Science, Innovation and Technology and the Home Office are engaging with EU officials on this matter, and I know that the Secretary of State also provided the House of Lords European Affairs Committee with a letter that sets out some of the work that they've been undertaking.*
>
> *As data adequacy isn't devolved to the Senedd, we haven't been personally involved in those particular discussions, but I know officials have been provided with information from those discussions that are ongoing at the moment. And just to reassure colleagues that I've been raising issues around data adequacy with counterparts in the UK Government as well."*[68]

**75.** Ar 5 Chwefror 2025, ar ôl ein sesiwn dystiolaeth gyda'r Ysgrifennydd Cabinet, ysgrifennodd atom yn darparu copi o'r asesiad wedi'i ddiweddaru mewn

---

[66] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion [73] a [74]
[67] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion [77]
[68] Y Pwyllgor Deddfwriaeth Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion [70] a [71]

perthynas ag effaith bosibl y Bil ar y Cytundeb Masnach a Chydweithredu.[69] Yn y llythyr hwnnw, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet unwaith eto na fydd y Bil yn cael effaith uniongyrchol ar gydymffurfedd y DU â’r Cytundeb Masnach a Chydweithredu. Fodd bynnag, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet y canlynol hefyd:

> *“… rydym yn pryderu y gallai'r Bil hwn nodi dechrau ymwahaniad y DU oddi wrth y drefn diogelu data sydd ar waith ar hyn o bryd ledled yr UE drwy wanhau'r diogelwch a ddarperir gan ddeddfwriaeth y DU a nodir yn y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018. (…)*
>
> *Ein barn ni yw bod nifer o ddarpariaethau yn y Bil hwn a allai o bosibl danseilio'r fframwaith diogelu data presennol, ac felly gallant fygwth penderfyniadau digonolrwydd perthnasol.*
>
> *Mae’r pryderon allweddol yn ymwneud â:*
>
> - *darpariaethau a fydd yn gwanhau hawliau gwrthrych data, megis gwanhau amddiffyniadau ynghylch gwneud penderfyniadau awtomataidd;*
> - *ychwanegu dyletswyddau i’r Comisiynydd Gwybodaeth a allai effeithio ar y gofyniad am annibyniaeth lwyr y Comisiynydd, yn rhydd o ddylanwad allanol uniongyrchol neu anuniongyrchol;*
> - *y gwahanol safon o drin trosglwyddiadau data rhyngwladol o'i gymharu â'r UE, a allai rhwystro digonolrwydd pe bai'r mater hwn yn achos o ymgyfreitha; a*
> - *bod cyfanswm pwerau deddfu'r Ysgrifennydd Gwladol yn arwain at lefel uchel o reolaeth ynghylch diogelu data gyda mesurau diogelu cyfyngedig. (…)*
>
> *Mae Llywodraeth y DU wedi rhoi sicrwydd nad yw'n gweld y Bil fel bygythiad i'r cytundeb digonolrwydd. Fodd bynnag, nid oes gennym unrhyw dystiolaeth i brofi nac i wrthbrofi hyn. Mae*

[69] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, 5 Chwefror 2025

*Gweinidogion Cymru wedi gofyn i Lywodraeth y DU rannu copi o'i hasesiad risg ar y mater hwn, ond nid ydym wedi'i gael."*[70]

# 2. Trafodaeth y Pwyllgor

**76.** Fel y nodwn uchod, gwnaethom ystyried y Memorandwm yn ein cyfarfod ar 13 Ionawr 2025 a chymryd tystiolaeth gan yr Ysgrifennydd Cabinet ar 3 Chwefror 2025.

**77.** Gwnaethom gytuno ar ein hadroddiad yn ein cyfarfod ar 17 Chwefror 2025.[71]

## Ein barn ni

### Cydsyniad deddfwriaethol

**78.** Nodwn asesiad Llywodraeth Cymru o'r darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer, fel y nodir yn y Memorandwm.

**79.** Nodwn hefyd fod gwahaniaethau barn rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynghylch y darpariaethau y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer. Yn benodol, mae Llywodraeth y DU hefyd o'r farn nad yw cymal 12 yn ymwneud â'r broses cydsyniad deddfwriaethol.

**80.** Yn gynharach yn yr adroddiad, nodwyd barn Llywodraeth y DU bod y fater a gedwir yn ôl o dan y cymalau ar bolisi economaidd ac arianyddol ym mharagraff 15 o Atodlen 7A i Ddeddf 2006 yn gymwys i gymal 12. Am y rhesymau a amlinellwyd yn y Memorandwm, mae Llywodraeth Cymru yn anghytuno bod y mater hwn a gedwir yn ôl yn gymwys. Er hynny, nodwn mai dim ond o ran Cymru y mae angen i ddarpariaeth 'roi sylw i faterion datganoledig' er mwyn ymgysylltu'r broses cydsyniad deddfwriaethol o dan Reol Sefydlog 29. Ein dealltwriaeth ni yw y gall cymal 12 addasu swyddogaethau cyhoeddus awdurdodau Cymreig datganoledig drwy ddarparu pŵer i awdurdodau cyhoeddus osod ardoll at ddibenion talu costau a ysgwyddir mewn perthynas â chynlluniau Data Clyfar.

**81.** Mewn perthynas â gweddill Rhan 1 o'r Bil (ac eithrio cymalau 14 i 17), nodwn farn Llywodraeth y DU bod y Rhan hon, fel arall, wedi'i datganoli i'r graddau nad yw'n ymwneud â rheoleiddio gwerthu a chyflenwi nwyddau a gwasanaethau i

---

[70] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, 5 Chwefror 2025, Atodiad 1
[71] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 17 Chwefror 2025. Cytunodd y Pwyllgor ar ei adroddiad drafft, yn amodol ar fân newidiadau i'w cytuno y tu allan i'r Pwyllgor.

ddefnyddwyr. Nid yw Llywodraeth Cymru yn cytuno bod y darpariaethau hyn yn ymwneud â'r mater hwn a gedwir yn ôl, nac unrhyw fater arall a gedwir yn ôl yn Atodlen 7A i Ddeddf 2006. Serch hynny, gan fod cytundeb bod y rhan fwyaf o Ran 1 mewn maes datganoledig, i raddau o leiaf, yn ein barn ni, mae'r darpariaethau hyn yn *"rhoi sylw i faterion datganoledig"* at ddibenion y broses cydsyniad deddfwriaethol.

**82.** Nodwn ei bod yn ymddangos bod cytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU nad oes angen cydsyniad y Senedd mewn perthynas â chymalau 14 i 17 gan eu bod wedi'u cadw'n ôl o dan y mater a gedwir yn ôl, sef gwasanaethau ariannol, ym mharagraff 17 o Atodlen 7A i Ddeddf 2006.

**83.** Mewn perthynas â'r darpariaethau 'porth gwybodaeth' yn Rhan 2 o'r Bil, nodwn fod anghytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynghylch a yw'r darpariaethau hyn yn ymwneud â'r mater a gedwir yn ôl, sef *'gwasanaethau rhyngrwyd',* ym mharagraff 84 o Atodlen 7A i Ddeddf 2006, er bod y ddwy lywodraeth yn cytuno bod angen cydsyniad ar gyfer cymalau 45, 47 a 49 o'r Bil. Gan fod y darpariaethau'n addasu cymhwysedd gweithredol awdurdodau Cymreig datganoledig ac yn rhoi diogelwch ychwanegol mewn perthynas â gwybodaeth a ddelir gan Awdurdod Cyllid Cymru, ein barn ni yw yr ymgysylltir y broses cydsyniad deddfwriaethol.

**84.** Wrth ymateb i'n cais am eglurhad ynghylch pam mai dim ond am dri chymal yn Rhan 2 o'r Bil y mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn ceisio cydsyniad y Senedd, nodwn fod yr Ysgrifennydd Cabinet o'r farn bod y darpariaethau sy'n weddill yn Rhan 2 wedi'u cwmpasu gan y mater a gedwir yn ôl sy'n ymwneud â 'rheoleiddio gwerthu a chyflenwi ... gwasanaethau i ddefnyddwyr' ym mharagraff 72 o Atodlen 7A i Ddeddf 2006. Nid yw'r farn hon wedi'i nodi'n glir yn y Memorandwm sy'n ein siomi.

**85.** Yn y Memorandwm, ac yn benodol mewn perthynas â Rhan 2 o'r Bil, mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn cyflwyno barn nad yw'r materion a gedwir yn ôl '*gwasanaethau rhyngrwyd*' na '*pholisi economaidd ac arianyddol cyllidol*' yn Neddf 2006 yn gymwys i'r darpariaethau Rhan 2. Nid yw'n glir i ni pam nad yw asesiad Llywodraeth Cymru o ran y mater a gedwir yn ôl '*diogelu defnyddwyr*' wedi'i esbonio yn y Memorandwm. Nodwn hefyd, yn y Nodiadau Esboniadol i'r Bil, nad yw Llywodraeth y DU yn sôn am y mater a gedwir yn ôl '*diogelu defnyddwyr*' mewn perthynas â Rhan 2 o'r Bil. Yn hytrach, mae'r Nodiadau Esboniadol yn canolbwyntio ar y mater a gedwir yn ôl 'gwasanaethau rhyngrwyd'.

**Casgliad 1.** Am resymau tryloywder, mae'n siomedig nad yw'r Memorandwm yn nodi asesiad llawn Llywodraeth Cymru o ran y materion a gedwir yn ôl yn Neddf 2006 y mae o'r farn eu bod yn gymwys i'r darpariaethau yn Rhan 2 o'r Bil.

**Casgliad 2.** Rydym yn cytuno ag asesiad Llywodraeth Cymru, fel y nodwyd yn y Memorandwm, o'r darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer yn unol â Rheol Sefydlog 29.

**86.** Nodwn hefyd nad yw'r Ysgrifennydd Cabinet, yn y Memorandwm, wedi datgan safbwynt Llywodraeth Cymru yn benodol ynghylch a ddylid rhoi cydsyniad y Senedd i'r darpariaethau perthnasol yn y Bil. Rydym yn edrych eto ar hyn yn y paragraffau canlynol.

## Gwaith rhynglywodraethol a datrys pryderon cyfansoddiadol

**87.** Nodwn y bu ymgysylltiad parhaus ar ddatblygu'r Bil ar lefel Weinidogol a swyddogol ar draws Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

**88.** O ran gosod y Memorandwm, mae Rheol Sefydlog 29.2 yn darparu bod rhaid i aelod o'r llywodraeth osod memorandwm mewn perthynas ag unrhyw Fil gan Lywodraeth y DU sy'n Fil perthnasol pan y'i cyflwynir i'r Tŷ cyntaf, "a hynny dim mwy na phythefnos fel rheol ar ôl ei gyflwyno". Nodwn, er gwaethaf y gwaith rhynglywodraethol, na osododd yr Ysgrifennydd Cabinet y Memorandwm gerbron y Senedd tan 10 wythnos ar ôl i'r Bil gael ei gyflwyno i Senedd y DU.

**89.** Rydym yn cydnabod bod y Pwyllgor Busnes, wedi hynny, wedi gallu gosod dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad sydd wedi rhoi mwy na dau fis i bwyllgorau perthnasol y Senedd graffu ar y Memorandwm. Serch hynny, nid ydym wedi ein hargyhoeddi gan y sail resymegol a gyflwynwyd gan yr Ysgrifennydd Cabinet i egluro pam y bu angen cyfnod mor hir i lunio'r Memorandwm, yn enwedig pan fo'r rhan fwyaf o ddarpariaethau'r Bil wedi'u trosglwyddo o Fil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol blaenorol Llywodraeth y DU a oedd yn destun sawl memorandwm cydsyniad a thrafodaeth rynglywodraethol sylweddol.

**Casgliad 3.** Oherwydd yr amser y cymerodd Llywodraeth Cymru i osod y Memorandwm, mae gennym bryderon na all memoranda cydsyniad deddfwriaethol atodol, a fydd yn ofynnol os bydd y Bil yn cael ei ddiwygio mewn ffordd sy'n ymgysylltu'r broses cydsyniad deddfwriaethol, gael eu gosod mewn modd amserol. O ystyried bod y Bil bellach yn mynd drwy Dŷ'r Cyffredin, lle y mae gan Lywodraeth y DU fwy o ddylanwad ar yr amserlen graffu, rydym hefyd yn pryderu na fydd digon o amser i bwyllgorau'r Senedd ystyried memorandwm

atodol yn llawn a all fod yn ofynnol os cynigir neu os gwneir newidiadau sylweddol i'r Bil.

**Argymhelliad 1.** Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet sicrhau bod memoranda cydsyniad deddfwriaethol atodol, a all fod yn ofynnol oherwydd diwygiadau sy'n cael eu cynnig neu eu gwneud i'r Bil yn Senedd y DU, yn cael eu gosod gerbron y Senedd cyn gynted â phosibl i roi'r cyfle gorau posibl i bwyllgorau'r Senedd ystyried y newidiadau deddfwriaethol gan eu bod yn gymwys i faterion datganoledig.

**90.** Rydym hefyd yn nodi bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn nodi ei barn yn y Memorandwm ei bod yn "briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn ar gyfer y DU, gan mai'r Bil yw'r ffordd fwyaf effeithiol o ddod â'r darpariaethau hyn i rym".

**91.** Serch hynny, nodwn fod yr Ysgrifennydd Cabinet o'r farn nad yw sawl darpariaeth yn y Bil yn gyson ag egwyddorion Llywodraeth Cymru ar ddeddfwriaeth y DU ac, o ganlyniad, nid yw'r Ysgrifennydd Cabinet wedi rhoi argymhelliad i'r Senedd hyd yn hyn ynghylch a ddylai roi ei chydsyniad i'r darpariaethau perthnasol yn y Bil.

**Casgliad 4.** Rydym yn parhau i fod yn ansicr pam na chafodd materion cyfansoddiadol sylweddol sylw a'u datrys cyn i'r Bil gael ei gyflwyno i Senedd y DU. O ystyried yr ymgysylltiad rhwng llywodraethau, mae'n destun gofid bod materion dros ben sy'n peri pryder.

**92.** Rydym o'r farn bod materion yn codi mewn darpariaethau penodol yn y Bil yn y paragraffau a ganlyn.

## Sylwadau ar Ran 1 o'r Bil – Cael at Ddata am Gwsmeriaid a Data am Fusnesau

**93.** Nodwn fod Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r bwriad polisi y tu ôl i Ran 1 o'r Bil.

**94.** Nodwn hefyd fod y darpariaethau yn Rhan 1 o'r Bil, sy'n rhoi pwerau gwneud rheoliadau i'r Ysgrifennydd Gwladol a Thrysorlys EF mewn maes datganoledig, yn destun pryder allweddol i'r Ysgrifennydd Cabinet. Ar ben hynny, fel mater sydd eto i'w ddatrys, rydym yn cydnabod bod yr Ysgrifennydd Cabinet o'r farn nad yw'r darpariaethau hyn yn gyson ag egwyddorion Llywodraeth Cymru ar ddeddfwriaeth y DU.

**95.** Er bod llawer o'r pwerau a roddir yn Rhan 1 o'r Bil yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol, ni fyddai gofyniad i osod is-ddeddfwriaeth yn y maes hwn gerbron y Senedd, gan fod y pwerau hynny wedi'u rhoi i'r Ysgrifennydd Gwladol a'r

Trysorlys. Nodwn hefyd na ddarperir rôl, gan gynnwys rôl ymgynghorol, i Weinidogion Cymru o dan y darpariaethau hyn.

**96.** Nodwn ymhellach y caiff rheoliadau a wneir o dan gymal 12 addasu swyddogaethau cyhoeddus awdurdodau Cymreig datganoledig drwy ddarparu pŵer i awdurdodau cyhoeddus osod ardoll at ddibenion talu'r cyfan neu ran o'r costau a ysgwyddir gan y personau hynny (sef y rhai sy'n gwneud penderfyniadau, cyrff rhyngwyneb, gorfodwyr ac awdurdodau cyhoeddus) fel y gall y sector perthnasol dalu treuliau cynllun Data Clyfar heb achosi cost i'r trethdalwr.

**97.** Fel y nodwn yn gynharach yn yr adroddiad, nid pryderon newydd yw pryderon Llywodraeth Cymru gyda'r pwerau a ddirprwywyd i'r Ysgrifennydd Gwladol a Thrysorlys EF yn Rhan 1 o'r Bil. Pan gynhwyswyd darpariaethau tebyg ym Mil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol blaenorol Llywodraeth y DU, roedd Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â Llywodraeth y DU ac yn ceisio newidiadau a fyddai'n tawelu pryderon ynghylch goblygiadau datganoledig y pwerau hyn.

**98.** Aeth Llywodraeth Cymru mor bell â dweud bod "Gweinidogion Cymru o'r farn nad yw'r dull cyfredol i roi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol yn unig unwaith eto'n adlewyrchu datganoli a'i fod yn amhriodol".[72]

**Argymhelliad 2.** Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet ddiweddaru'r Pwyllgor a'r Senedd cyn gynted â phosibl ar y newidiadau penodol i Ran 1 o'r Bil y mae Llywodraeth Cymru yn gofyn amdanynt, a rhoi manylion am gynnydd trafodaethau â Llywodraeth y DU.

## Sylwadau ar Ran 2 o'r Bil – Gwasanaethau Dilysu Digidol

**99.** Nodwn fod Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r bwriad polisi y tu ôl i Ran 2 o'r Bil.

**100.** Rydym hefyd yn nodi bod cymal 49 yn Rhan 2 o'r Bil, sy'n rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol lunio a chyhoeddi Cod Ymarfer a fyddai'n gymwys i awdurdodau cyhoeddus Cymru, yn destun pryder allweddol arall i'r Ysgrifennydd Cabinet. Ar ben hynny, fel mater sydd eto i'w ddatrys, rydym yn cydnabod bod yr Ysgrifennydd Cabinet o'r farn nad yw cymal 49 yn gyson ag egwyddorion Llywodraeth Cymru ar ddeddfwriaeth y DU.

**101.** Mae rhaid i awdurdodau cyhoeddus sy'n rhannu data at ddibenion gwasanaethau dilysu digidol roi sylw i'r Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan gymal 49. Byddai'r cod hwn yn gymwys i awdurdodau Cymreig datganoledig. Nodwn

[72] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Memorandwm Rhif 4), Ebrill 2024, paragraff 26

ymhellach, o dan gymal 49(5), ei bod yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru wrth lunio neu ddiwygio'r Cod. Unwaith eto gan fod y pŵer yn nwylo'r Ysgrifennydd Gwladol, ni fyddai gofyniad i osod y cod drafft gerbron y Senedd.

**102.** Unwaith eto, nid yw pryderon Llywodraeth Cymru gyda'r pwerau a ddirprwywyd i'r Ysgrifennydd Gwladol yng nghymal 49 o'r Bil i lunio a chyhoeddi Cod Ymarfer ledled y DU ynghylch gwasanaethau dilysu digidol a fyddai'n gymwys i awdurdodau cyhoeddus Cymru yn bryderon newydd oherwydd bod darpariaethau tebyg yn y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol hefyd yn peri pryder i Lywodraeth Cymru.

**103.** Yn ein hadroddiadau ar y memoranda cydsyniad deddfwriaethol ar y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol, gwnaethom ofyn i Lywodraeth Cymru roi asesiad Llywodraeth Cymru i ni o oblygiadau datganoledig Cod Ymarfer ledled y DU ynghylch datgelu gwybodaeth a'r pwerau sy'n cael eu rhoi i'r Ysgrifennydd Gwladol yn y Bil.[73] Ni chafodd y Pwyllgor asesiad manwl fel y gofynnwyd amdano.

**Argymhelliad 3.** Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet ddiweddaru'r Pwyllgor a'r Senedd cyn gynted â phosibl ar y newidiadau penodol i gymal 49 yn Rhan 2 o'r Bil y mae Llywodraeth Cymru yn gofyn amdanynt, a rhoi manylion am gynnydd trafodaethau â Llywodraeth y DU.

## Sylwadau ar Ran 3 o'r Bil – Cofrestr Asedau Tanddaearol Genedlaethol

**104.** Nodwn fod Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r bwriad polisi y tu ôl i Ran 3 o'r Bil, sy'n cynnwys darpariaethau sy'n diwygio Deddf 1991 drwy fewnosod Rhan 3A newydd yn y Ddeddf honno i roi'r Gofrestr Asedau Tanddaearol Genedlaethol ar sail statudol.

**105.** Fel y gwnaethom dynnu sylw wrth ystyried memoranda cydsyniad deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol, mae pwnc Deddf 1991 yn fater datganoledig.

**106.** Rydym yn cydnabod datganiad yr Ysgrifennydd Cabinet bod rhai pryderon gyda Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol blaenorol Llywodraeth y DU wedi'u datrys, sef dileu darpariaethau sy'n ymwneud â'r Gofrestr Asedau Tanddaearol

[73] Adroddiad ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol, argymhelliad 1, ac Adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) Llywodraeth Cymru ar y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol, argymhelliad 1

Genedlaethol wrth drosglwyddo pwerau gwneud rheoliadau o dan adran 79 o Ddeddf 1991 oddi wrth Weinidogion Cymru i'r Ysgrifennydd Gwladol.

**107.** Fodd bynnag, unwaith eto, nodwn fod nifer o ddarpariaethau yn Rhan 3 o'r Bil sy'n yn destun pryder allweddol i'r Ysgrifennydd Cabinet a, heb eu datrys eto, rydym yn cydnabod bod yr Ysgrifennydd Cabinet o'r farn nad yw cymalau 56, 57(3), 57(4), a 57(9) yn gyson ag egwyddorion Llywodraeth Cymru ar ddeddfwriaeth y DU.

**108.** Nodwn fod cymal 56 yn gosod dyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol i gadw cofrestr o wybodaeth sy'n ymwneud â chyfarpar ar strydoedd yng Nghymru a Lloegr, a bod ffurf a modd y Gofrestr Asedau Tanddaearol Genedlaethol i'w rhagnodi mewn rheoliadau. Mae darpariaethau eraill yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau mewn perthynas â'r gofrestr honno, megis mewn perthynas â lanlwytho gwybodaeth yn y lle cyntaf, cael at wybodaeth, ffioedd sy'n daladwy gan ymgymerwyr, darparu gwybodaeth, cosbau ariannol, a threfniadau i drydydd partïon arfer swyddogaethau. Rydym yn cydnabod ei bod yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn gwneud rheoliadau o dan y pwerau hyn, ond ni ddarperir pwerau cyfatebol a/neu gydredol i Weinidogion Cymru.

**109.** Rydym yn tynnu sylw, wrth ymateb i'n hadroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 3) ar y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol, y datganodd Llywodraeth Cymru y canlynol:

> *"Er bod mecanwaith "ymgynghori" wedi'i gynnwys yn y narpariaethau NUAR, nid yw hyn yn gosod unrhyw ymrwymiad rhwymol ar Lywodraeth y DU i ystyried ein barn yn dilyn ymgynghoriad ac nid yw'n adlewyrchu datganoli yn briodol. Nid ystyrir bod hyn yn dderbyniol yn gyfansoddiadol ac ni all wneud iawn am ddileu y pwerau sydd eisoes gan Weinidogion Cymru."*[74]

**110.** Yn gynharach yn yr adroddiad, nodwn y dywed yr Ysgrifennydd Cabinet, yn y Memorandwm, o dan gymal 57(2) a (3) o'r Bil, fod y diwygiadau sydd i'w gwneud i adran 79 o Ddeddf 1991 yn rhoi pwerau gwneud rheoliadau cydredol i'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru. Mae hyn yn wir i raddau. Byddai pwerau o dan adran 79(1) i (2) o Ddeddf 1991 fel y'i diwygiwyd yn arferadwy ar yr un

[74] Llythyr oddi wrth Jeremy Miles AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg, 16 Ebrill 2024

pryd mewn perthynas â chyfarpar ar strydoedd yng Nghymru. Fodd bynnag, ac unwaith eto fel rydym yn tynnu sylw yn y Bennod flaenorol, mae pwerau newydd eraill a fewnosodir yn adran 79 o Ddeddf 1991 yn arferadwy gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn unig.

**111.** Er bod yr adran 80 bresennol o Ddeddf 1991 yn cynnwys pwerau dirprwyedig sy'n arferadwy gan Weinidogion Cymru (sy'n ymwneud â dyletswydd ar bersonau sy'n ymgymryd â gwaith ar strydoedd i hysbysu ymgymerwyr o leoliad cyfarpar pan fyddant wedi'u lleoli wrth wneud gwaith, gan gynnwys sut y cedwir y cofnodion hynny ac unrhyw eithriadau i'r ddyletswydd honno), nodwn nad yw adran 80 erioed wedi'i chychwyn.

**112.** Ymhellach, nodwn fod llawer o'r pwerau presennol yn adrannau 79 a 80 o Ddeddf 1991 o ran Cymru yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn unig ar hyn o bryd. Fel y cyfryw, mae'r diwygiadau a'r mewnosodiadau a wneir i'r darpariaethau hyn gan y Bil yn gyfystyr ag addasiad i gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru a, thrwy estyniad, yn cael effaith ganlyniadol ar rôl graffu'r Senedd mewn perthynas â gwneud is-ddeddfwriaeth yn y maes hwn.

**Casgliad 5.** Nid ydym o'r farn bod y pwerau gwneud rheoliadau newydd a ddarperir i'r Ysgrifennydd Gwladol yn y darpariaethau newydd ar gyfer y Gofrestr Asedau Tanddaearol Genedlaethol yn briodol.

**Casgliad 6.** Mae dirymu is-ddeddfwriaeth y cytunwyd arni gan y Senedd, sef Rheoliadau Gwaith Stryd (Cofnodion) (Cymru) 2005, ac estyn y rheoliadau cyfatebol yn Lloegr i Gymru yn amhriodol.

**Argymhelliad 4.** Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet ddiweddaru'r Pwyllgor a'r Senedd cyn gynted â phosibl ar y newidiadau penodol i gymalau 56, 57(3), 57(4) a 57(9) yn Rhan 3 o'r Bil y mae Llywodraeth Cymru yn gofyn amdanynt, a rhoi manylion am gynnydd trafodaethau â Llywodraeth y DU.

## Sylwadau ar Ran 7 – Gwybodaeth i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn well

**113.** Nodwn fod Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r bwriad polisi y tu ôl i Ran 7 o'r Bil.

**114.** Ymhellach, nodwn fod cymal 121 o'r Bil yn estyn pŵer Harri'r Wythfed sy'n bodoli eisoes ac sy'n arferadwy gan Weinidogion Cymru drwy ddiwygio adran 35 o Ddeddf 2017, a bod y pŵer hwn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

### Rhwymedigaethau'r DU a'r UE

**115.** Fel y Pwyllgor sy'n gyfrifol am ystyried effeithiau cyfansoddiadol materion allanol, gwnaethom ystyried y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol o safbwynt llywodraethu'r DU a'r UE a chydymffurfiaeth â rhwymedigaethau rhyngwladol ac rydym wedi mabwysiadu'r un ymagwedd wrth ystyried y Memorandwm.

**116.** Rydym yn deall bod cydweithredu ar ddiogelu data personol yn un o wyth sylfaen cydweithredu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu. Mae rhagor o ddyletswyddau ar ddiogelu data personol wedi'u cynnwys yn y Cytundeb Masnach a Chydweithredu, yn enwedig o ran cydweithrediad gorfodi'r gyfraith.

**117.** Rydym yn nodi'r sicrwydd a roddwyd gan yr Ysgrifennydd Cabinet bod Llywodraeth Cymru o'r farn bod y Bil yn cydymffurfio â'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu.

**118.** Rydym yn croesawu cytundeb yr Ysgrifennydd Cabinet i barhau i ddarparu asesiadau o'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu mewn memoranda cydsyniad deddfwriaethol yn y dyfodol ac yn cydnabod yr ymdrechion a wnaed i ddarparu asesiad o'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu ar wahân yn brydlon ar yr achlysur hwn. Dylid cynnwys asesiadau o'r fath mewn memoranda cydsyniad deddfwriaethol yn y lle cyntaf, yn hytrach nag mewn gohebiaeth ar wahân yn y dyfodol i gynorthwyo pwyllgorau yn eu gwaith craffu.

**119.** Nodwn farn Llywodraeth Cymru y gallai'r Bil ddangos dechrau ymwahanu'r DU â'r gyfundrefn diogelu data sydd ar waith ar hyn o bryd ar draws yr UE drwy wanhau'r amddiffyniadau a ddarperir gan ddeddfwriaeth y DU.

**Casgliad 7.** Rydym yn ailadrodd ein safbwynt blaenorol mewn perthynas â'r Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol, sef ein bod yn rhannu pryderon Llywodraeth Cymru bod y Bil yn peri risg i benderfyniad digonolrwydd data'r DU y disgwylir iddo ddod i ben ym mis Mehefin 2025.

**120.** Er ein bod yn cydnabod diweddariadau'r Ysgrifennydd Cabinet ar drafodaethau â Llywodraeth y DU, rydym yn ansicr i ba raddau y trafodwyd y materion hyn mewn fforymau rhynglywodraethol perthnasol, yn benodol, y Grwpiau Rhyngweinidogol ar gysylltiadau rhwng y DU a'r UE ac ar fasnach. Nid yw gohebiaeth ddiweddar ar y grwpiau hyn wedi rhoi digon o fanylion i benderfynu pa drafodaethau sydd wedi digwydd.

**Argymhelliad 5.** Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet egluro a yw dimensiynau'r Bil rhwng y DU a'r UE yn cael eu trafod mewn fforymau rhynglywodraethol

perthnasol, gan gynnwys y Grwpiau Rhyngweinidogol ar gysylltiadau rhwng y DU a'r UE ac ar fasnach, a rhoi crynodeb o'r trafodaethau hynny.

**121.** Nodwn mai ychydig o wybodaeth sydd ar gael i'r Senedd am broses adnewyddu penderfyniad digonolrwydd data'r DU.

**Argymhelliad 6.** Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet amlinellu i'r Senedd y broses adnewyddu ar gyfer penderfyniad digonolrwydd data'r DU.